

## **I: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch**

Cyfeirnod: W05/08HE  
Dyddiad: 8 Chwefror 2005  
Ymateber erbyn: Ni ddisgwyllir ymateb  
Gwybodaeth bellach: Alison Allan

### **DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG MEWN ADDYSG UWCH: YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD**

Fel y byddwch yn cofio, cynhaliwyd ymgynghoriad y llynedd ar ran y Grŵp Llywio ar gyfer Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch ar y strategaeth ddrafft yr oedd y Grŵp wedi'i pharatoi (W04/50HE). Yn sgil yr ymgynghoriad, cafodd y Strategaeth ei hystyried gan y Cyngor a'i hanfon ymlaen i'r Gweinidog, gyda chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Amgaeaf gopi o'r crynodeb a'r cyflythyr a anfonwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Bu'r Grŵp Llywio yn ystyried yr ymatebion yn ei gyfarfod diwethaf ym mis Ionawr. Mae trafodaethau'n parhau o fewn y Grŵp Llywio, a chyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, ar ddatblygu a gweithredu'r strategaeth ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir

## **Y STRATEGAETH DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG: YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD**

Cafwyd ymatebion gan:

Prifysgol Morgannwg  
Prifysgol Cymru, Aberystwyth  
Prifysgol Cymru, Bangor  
Ysgol Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg, Prifysgol Cymru, Bangor  
Prifysgol Cymru Abertawe  
Prifysgol Cymru, Casnewydd  
Coleg y Drindod, Caerfyrddin  
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

- 1 Cafodd y strategaeth ei chroesawu a'i chymeradwyo ar y cyfan fel dogfen pragmatig a chlir a oedd yn nodi'r prif faterion ac yn cynnig ffyrdd synhwyrol a realistig o fynd i'r afael â hwy. Ystyriwyd hefyd ei bod yn gyfraniad o bwys at y drafodaeth ar ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector. Mewn rhai ymatebion, llongyfarchwyd y Grŵp Llywio ar ei waith.
- 2 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r egwyddorion allweddol a gyflwynwyd yn y strategaeth. Cydnabuwyd pwysigrwydd cydweithio ac mewn rhai ymatebion tynnwyd sylw at gyfrifoldeb y sefydliadau i fod yn barod i gydweithio yn y maes hwn. Pwysleisiwyd yr angen am fodolau cydweithio ymarferol y gallai'r sector cyfan a sefydliadau unigol eu cefnogi. Roedd cefnogaeth i'r gydgysylltu a'r gweithgareddau canolog a ddarperir gan yr Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Nododd ymatebion y sefydliadau hefyd sut yr oeddynt hwy eu hunain yn ceisio meithrin ymagweddau cynyddol strategol at ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu sefydliadau.
- 3 Creu system gynaliadwy ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg o ran is-strwythur a mecanweithiau/lefelau cyllido yn y tymor hir oedd neges gref arall yn yr ymatebion. Yn y cyd-destun hwn, croesawyd yr adolygiad o gostau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r goblygiadau posibl ar gyfer y lefel o bremiwm cyfrwng Cymraeg y mae'r Grŵp Llywio yn argymhell y dylai'r Cyngor ei darparu. At ei gilydd, pwysleisiodd yr ymatebion yr angen am fuddsoddi sylweddol ychwanegol mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys drwy'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio). Cefnogwyd yr angen i nodi gofynion posibl o fewn y strategaeth ar gyfer adnoddau ychwanegol. Pwysleisiodd un ymateb yn arbennig fod yn rhaid cydnabod y goblygiadau ariannol os oedd addysg cyfrwng Cymraeg i oroesi o fewn system gyllido AU wedi'i seilio ar gyflenwad a galw – ni ellid datblygu darpariaeth ar sail ewyllys dda yn unig.
- 4 Gwnaed y pwynt am fuddsoddi mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg nid yn unig yng nghyd-destun ehangu ond hefyd oherwydd breuder y ddarpariaeth bresennol. Roedd teimlad bod angen gweithredu ar frys i sicrhau'r cyllid angenrheidiol i roi'r strategaeth ar waith.

- 5 Mewn un ymateb nodwyd y rhwystredigaeth a siom a deimlid gan fyfyrwyr a staff y sefydliad (sydd yn aml yn gwneud ymdrech bersonol fawr i gynnal ac estyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg) gan fod cynigion cynharach heb gael eu gweithredu oherwydd diffyg cyllid. Roedd y rhwystredigaeth yn amlwg yn yr ymateb a gyflwynwyd gan rai o staff y sefydliad yn dilyn trafodaeth ar y strategaeth. Teimlent fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sefyllfa anodd iawn oherwydd adnoddau ariannol tynn y sefydliadau a model economaidd a oedd yn pwysleisio bod yn rhaid i ddarpariaeth fod yn gost-effeithiol. Roedd pryderon am faterion a oedd yn ei gwneud hi'n anodd i recriwtio staff cyfrwng Cymraeg. Roeddynt o'r farn bod y systemau cyllido presennol yn gwneud cydweithio o fewn a rhwng sefydliadau yn anodd. Teimlent yn gryf hefyd fod angen buddsoddi ychwanegol uniongyrchol i ddiogelu a chryfhau darpariaeth mewn sefydliadau unigol yn ogystal â system gyllido tymor hwy a fyddai'n darparu sylfaen gynaliadwy ar gyfer darpariaeth a staffio cyfrwng Cymraeg.
- 6 Roedd ymateb UCAC wedi'i osod i raddau helaeth o fewn cyd-destun ei farn y dylid sefydlu "Coleg Ffederal" ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## **DATBLYGU A RECRIWTIO STAFF**

- 7 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion yn y strategaeth ar ddatblygu a recriwtio staff. Ystyrid bod y Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion a'r Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu yn hanfodol er mwyn cynyddu'r cyflenwad posibl o academyddion cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn sefydliadau lle'r oedd ymchwil yn agwedd bwysig iawn ar eu cenhadaeth. Ond roedd pwyslais hefyd ar yr angen am ffrwd gyllido gyfochrog (yn unol â'r cynnig yn y strategaeth) ar gyfer disgyblaethau galwedigaethol lle gallai'r llwybr i yrfa mewn addysg uwch fod drwy gymhwysedd galwedigaethol yn hytrach na gradd ymchwil, neu ar gyfer darparu cyfleoedd i gryfhau addysgu cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau lle nad oes digon o staff Cymraeg i ystyried cymryd myfyriwr ymlaen o dan y Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion.

## **DATBLYGU DARPARIAETH**

- 8 Roedd croeso ar y cyfan i'r drafodaeth yn y strategaeth ar ddatblygu ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fel y nodwyd uchod, roedd yr ymatebion o blaid cydweithio yn ogystal â chynllunio datblygiadau ar sail pynciau unigol. Awgrymwyd bod angen datblygu'r strategaeth ymhellach mewn meysydd megis nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygiadau cwricwlwm mewn pynciau sy'n fwyaf perthnasol i'r sgiliau sydd eu hangen yng Nghymru, gan elwa ar botensial TGCh, a chyfleoedd rhan-amser a dysgu gydol oes. Roedd yr ymatebion hefyd yn adlewyrchu persbectif y sefydliad unigol i ryw raddau: felly, lle nad oedd llawer o ddarpariaeth ar hyn o bryd, roedd mwy o bwyslais ar yr angen am gyllid cychwyn nag mewn sefydliadau lle'r oedd mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg; neu fel arall, mewn sefydliadau lle'r oedd y ddarpariaeth yn fwy helaeth, awgrymwyd na ddylai cynyddu darpariaeth mewn sefydliadau ar draws y sector wanhau'r crynadau presennol o ddarpariaeth.

## **MARCHNATA A DILYNIANT**

- 9 Roedd croeso i'r syniad o ddarparu cymorth canolog ar gyfer marchnata ac ymchwil farchnata er mwyn deall ac ysgogi galw, er bod un ymatebwr yn teimlo mai'r sefydliad unigol a ddylai fod yn gyfrifol am y gwaith allweddol o farchnata darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

### ***Galw gan fyfyrwyr***

- 10 Nododd un sefydliad yr hyn a ystyriai a oedd yn faterion pwysig, ond anodd, gan gyfeirio at y ffactorau ariannol a ffactorau eraill a oedd yn dylanwadu ar fyfyrwyr wrth ddewis rhwng astudiaeth cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.
  - Ni allai sefydliadau ddibynnu ar grŵp diffiniedig o fyfyrwyr a oedd yn dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i ehangu nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Roedd angen i'r system ddarparu'n well ar gyfer grŵp ehangach o fyfyrwyr y gellid eu hannog, pe bai'r amgylchiadau'n iawn, i gynnwys peth astudio cyfrwng Cymraeg yn eu cyrsiau.

- Roedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cystadlu am fyfyrwyr o fewn marchnad Brydeinig ar gyfer AU lle'r oedd ystyriaethau gwerth am arian yn dod yn fwyfwy perthnasol i fyfyrwyr a'u rhieni.
  - Nid oedd bob amser yn bosibl nodi'n ddigamsyniol fanteision cadarnhaol astudiaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer gyrfaeodd arbennig.
  - Gallai myfyrwyr ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg deimlo eu bod dan anfantais oherwydd prinder adnoddau a deunyddiau astudio cyfrwng Cymraeg o gymharu â chysiau cyfrwng Saesneg. Bu hyn yn broblem ers erioed ond fe'i gwnaed yn waeth gan y swm enfawr o ddeunydd sydd ar gael yn y Saesneg bellach drwy'r rhyngwyd a chyfryngau electronig eraill.
- 11 Awgrymodd yr un sefydliad y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'i hadolygiad o'r trefniadau cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr, ystyried a ddylid cael rhyw fath o ysgogiad ariannol i fyfyrwyr, megis bwrsariau i'w gosod yn erbyn y gyfran o'u ffioedd a oedd yn ymwneud â'u modiwlau cyfrwng Cymraeg.

29 Hydref 2004

John Howells  
Pennaeth yr Is-adran Addysg Uwch  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## **Y STRATEGAETH DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG MEWN ADDYSG UWCH**

Rwyf yn ysgrifennu i gyflwyno copi o'r strategaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, y rhoddodd CCAUC ystyriaeth iddi yn ei gyfarfod ar 21 Hydref.

Fel y gwyddoch, croesawodd y Gweinidog benderfyniad y Cyngor i sefydlu Grŵp Llywio i ddatblygu strategaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch ac mae hi wedi pwysleisio ar sawl achlysur ei bod hi'n edrych ymlaen at dderbyn y strategaeth. Ysgrifenasom at Derek Adams ym mis Mai, gan amgáu crynodeb o'r egwyddorion datblygol a chasgliadau'r Grŵp Llywio er gwybodaeth i'r Gweinidog, a chadarnhawyd y byddem yn cyflwyno'r strategaeth i'r Gweinidog yn ffurfiol yn yr hydref wedi cyfnod o ymgynghori yn ystod yr haf ac wedi i'r Cyngor roi ystyriaeth iddi.

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'n fawr iawn waith ac ymrwymiad aelodau'r Grŵp Llywio o dan arweinyddiaeth Andrew Green fel cadeirydd. Croesawodd y cyfle a gymerwyd gan y Gweinidog i drafod gwaith y Grŵp gydag Andrew yn gynharach yn y flwyddyn.

**Cafodd y strategaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried gan y Cyngor ar 21 Hydref. Roedd yr ymatebion yn cefnogi'r strategaeth ar y cyfan a gwnaed rhai awgrymiadau defnyddiol. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfrannu at ddatblygu a gweithredu'r strategaeth ond nid ystyrir eu bod yn effeithio ar ei sylwedd. Amgawen grynodeb o'r ymatebion fel y gall y Gweinidog gymryd i ystyriaeth y farn a fynegwyd. Ystyrir yr ymatebion yn fanwl gan y Grŵp Llywio yn ei gyfarfod nesaf yn gynnar yn y flwyddyn nesaf. Tra'n cydnabod nad oedd yr haf yn amser delfrydol i gynnal yr ymgynghoriad, ac nad oedd yr ymatebion yn niferus oherwydd hyn o bosibl, roedd y Grŵp yn cadw mewn cof ddymuniad y Gweinidog i weld y strategaeth mor fuan â phosibl. Wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu, parheir i weithio a thrafod â'r sector.**

Mae'n werth nodi bod yr ymatebion yn adlewyrchu'r her go iawn o annog a/neu alluogi rhagor o fyfyrwyr i gymryd o leiaf elfen o'u cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cyrraedd y targed yn *Ymgeisio'n Uwch*. Yn ogystal â'r pwyntiau a wneir yn yr ymatebion, mae galw yn dibynnu i raddau helaeth ar y dewisiadau a wneir gan fyfyrwyr ynghylch yr iaith yr astudiant drwyddi yn ystod cyfnodau cynnar eu haddysg. Mae'r gwaith y mae ELWa yn ei

wneud i gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16 yn hanfodol yma a bydd y Cyngor yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn ELWa, yn ogystal â manteisio ar arbenigedd aelodau'r Grŵp Llywio sy'n gweithio yn y sector ôl-16 a'r sector ysgolion.

Bydd gweithredu'r strategaeth yn gofyn am lawer mwy o adnoddau ariannol nag sydd gan CCAUC ar hyn o bryd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac felly bydd angen buddsoddi ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Cyngor yn sylweddoli y bydd hyn, yn y dyfodol agos, yn cynnwys annog a gweithio gyda'r sector i'w alluogi i wneud cynigion priodol am gyllid o'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio. Mae'r Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion a'r Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu a gyflwynwyd i chi yn ddiweddar i'w cymeradwyo yn enghraifft o hyn. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn pwysleisio mor allweddol yw'r cynlluniau hyn o ran cynyddu nifer y staff yn y sector sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwaith yn parhau hefyd ar ddatblygu gwerthusiad dewisiadau o fodlau posibl ar gyfer cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Gall peth gwaith cynnar cyfyngedig ar rai agweddau ar y strategaeth, megis marchnata a datblygiad staff, a datblygiadau cydweithiol drwy baneli pwnc yr Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, gael ei wneud o fewn cyllidebau presennol y Cyngor a'r Uned ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gellid gwneud cynnydd mwy sylweddol gydag adnoddau ychwanegol, fel yr amlinellir yn y strategaeth.

Ond, fel y pwysleisia'r strategaeth, er mwyn ehangu a chynnal darpariaeth rhaid i ni anelu yn y tymor hwy at sefydlu fframwaith a system gyllido gynaliadwy ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a bydd angen ystyried goblygiadau hyn o ran adnoddau ar ôl cwblhau'r gwerthusiad o ddewisiadau.

Amgaeaf y strategaeth, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, i'w cyflwyno i'r Gweinidog. Edrychwn ymlaen at dderbyn ymateb y Gweinidog ac at drafodaethau pellach â swyddogion y Cynulliad wrth i ni weithio tuag at gyrraedd y targed yn *Ymgeisio'n Uwch*.

Yr eiddoch yn gywir

**PHILIP GUMMETT**